



Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Glyn Haynes

Parti: Caerdybi

Ward: Caerdybi

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	Manylion ar wefan y Cyngor: Presenoldeb
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	
Pwyllgor Grantiau Cyffredinol	
Pwyllgor Penodiadau	
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	
Pwyllgor Trwyddedu	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn)	Gweler:
Llywodraethwr - Ysgol Gynradd Llanfawr, Caergybi	http://www.ysgollanfawr.co.uk/cymraeg/index.html

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf wedi mynychu nifer o gymorthfeydd yng Nghaergybi gan gynnwys cymorthfeydd ar y cyd efo Albert Owen AS. Pan fo'n bosib rwy'n ceisio gweithio'n agos gyda fy ddau gyd-gynghorydd yn Ward Caergybi, ac os oes ddi-ddordeb sy'n gyffredin, byddaf hefyd yn gweithio gyda chynghorwyr o wardiau eraill, yn enwedig Ynys Cybi.

Rwyf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd yn y gymuned i roi sylw i bryderon trigolion mewn perthynas â materion Tai/Cynllunio a phryderon ynglŷn â pharcio a thyllau yn y ffordd. Pan fo'n bosib rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Briffyrdd i'w datrys.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi mynychu amryw o sesiynau briffio dros y flwyddyn, yn arbennig mewn perthynas â phrosiect Minesto a Morlais a fydd o fantais fawr i Ynys Môn ac Ynys Cybi o ran y ddarpariaeth o swyddi sgiliau uchel sy'n talu'n dda.

Rwyf wedi bod yn defnyddio fy nghysylltiadau gydag Undebau Llafur i hwyluso cydweithio gyda phrosiect Wylfa Newydd. Byddai hyn wedi arwain at ymweliad ar y cyd â Gorsaf Niwclear Oldbury gyda swyddogion y Cyngor. Fodd bynnag, yn dilyn y penderfyniad trist gan Hitachi i beidio bwrw ymlaen â'r prosiect, gallwn dal fynd ymlaen â'r ymweliad hwn ar ddyddiad diweddarach petai angen.

4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining.aspx?UID=919&RPID=500087284&LLL=1>

5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Yn ystod y flwyddyn cefais hefyd fy ethol ar Gyngor Tref Caergybi. Mae'r Gyngor Tref wedi bod yn mynd o nerth i nerth ac mae nifer o fentrau cyffrous ar y gweill ar gyfer y dyfodol.

Fe wnes i hefyd fynychu'r Seremoni Goffa ar gyfer llong The Leinster yn Eglwys Sant Cybi a oedd yn brofiad teimladwy. Fe wnes i hefyd fynychu Diwrnod Ynys Môn yn y Senedd.

Rwyf hefyd wedi bod yn weithgar iawn gyda'r blaid Lafur yn fy etholaeth yn cynorthwyo trigolion gyda'u pryderon a cheisio eu datrys yn gadarnhaol.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=919&LLL=1>

Y Cyngorydd Glyn Haynes	Mai 2019
--------------------------------	-----------------